Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
TACHWEDD 2009

DYDDIAD	Nos Fercher, 18fed Tachwedd
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Cae'r Gors, Rhosgadfan
AELODAU'N BRESENNOL	Meurig Williams (Cadeirydd), Elin Evans, Gwilym V.Thomas, Nerys Evans, Elwyn Jones, Huw Williams, Gwilym L.Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Aeron M.Jones Bethan Williams, Clerc

1. **Croeso**

2. **Ymddiheuriadau**
   Jason Hunt

3. **Datgan Buddiant**
   AMJ – cynllunio

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Carter Jonas – clerc wedi ymholi ymhellach ynglyn â phris ac ati, ac wedi cael gwybodaeth gan Un Llais Cymru. Penderfynwyd cynnig oddeutu £8,000.
   b. ElJ – biniau grit – Lôn Llwyn Onn – clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd
   c. ElJ – ffens Lein Bryngwyn – clerc i holi Wyn Williams os ydy'n bosib rhoi ffens haearn yma.
   d. JH – biniau grit – lôn tai cyngor/cefn Post – fel (b) uchod
   e. GVT – hysbysfwrdd – gadael hwn ar y bwrdd tan y bydd gofyn amdano
   f. Baw ci – clerc i gysylltu efo Cibyn i ofyn wrthyn nhw glirio'r pentrefi
   g. MW – gang cymunedol – nododd fod y bag tywod ac ati wedi'i glirio o Gwelfor
   h. Clerc i drefnu fod yr hysbysfyrddau yn cael côt o Sadolin, a hefyd i drefnu ail-leoli hysbysfwrdd Rhostryfan, gan fod perchennog yr adeilad yn awyddus i'w symud.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	21,438.81
Cyfri Siec:	14.55
CYFANSWM	**21,453.36**

Taliadau:

Cyflog/costau clerc mis Tachwedd & ad-daliad codiad cyflog	723.45
Cyllid y Wlad	168.60
Torch bopi – Derek Thompson, Mountain Rangers	20.00
Hacker Young – archwiliad allanol wedi dod yn ôl – adroddiad lân.	
Anfoneb Hacker Young	327.75

9. **Materion Cynllunio**

CO9A/0530/24/MG
Caniatad ar gyfer materion gadwyd yn ôl o dan CO5A/765/24/AM ar gyfer un annedd – safle ger Glanrhyd Isaf, Dinas
CO9A/0287/24/MG – safle Trem y Werydd, Rhostryfan. Cafwyd adroddiad gan AMJ yn nodi fod cyfarfod safle wedi digwydd, a bod AMJ wedi dangos fod y ty yn rhy uchel, fod llyn ar y safle a problem dwr yn dod i'r lôn. Fodd bynnag fe basiwyd y cais o 24 i 15 yn y Cyngor llawn.
Gofynnodd yr aelodau sut mae mynd ati i apelio at y Cynulliad i wrthdroi'r penderfyniad. AMJ i ddanfon deunydd i'r clerc.
Eisoes wedi'u caniatau:
Garej – Glanllyn, Rhostryfan
Ail-leoli sied amaethyddol – Cae Penrhos, Rhosgadfan
Materion gadwyd yn ôl – safle Capel Gorffwysfa, Rhosgadfan

10 **Gohebiaeth:**

a. Comisiwn Ffiniau – arolwg o'r trefniadath etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd
b. Cyngor Gwynedd – Economi a Chymuned – pamffledi Llwyddo yng Nghwynedd
c. SLCC – cylchlythyr pwyllgor lleol
d. Cynulliad – ymgynghoriad Mesur Llywodraeth Leol
e. Adroddiad Blynddol – Gwynedd ar y cyd
f. Gwasanaethau Allanol Tirol – cynnig eu gwasanaeth
g. Cyfadran yr Amgylchedd – Ffliw Bydeang – gwarchod trefniadau
h. Llwyddo yng Ngwynedd – holiadur
i. SLCC – cynigion i arbed arian wrth archebu offer
j. Cylchgronnau

11 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a) AmJ am ofyn wrth Gyngor Gwynedd i lanhau'r gwteri.
b) EE – angen i Gyngor Gwynedd droi'r drych yng nghyffordd Saron fel fod gyrrwyr yn gallu gweld ceir yn dod
c) NE – parcio i fyny am Ysgol Rhostryfan – problem wedi codi yn ddiweddar gyda lori yn methu mynd drwodd. Gallai fod yn ddifrifol pe bai injan dân neu ambiwlans angen mynd i fyny tuag at yr ysgol. Clerc i ofyn am gyfarfod safle gyda Colin Jones, swyddog diogewlch ffyrdd Cyngor Gwynedd.
NE – nododd fod problem barcio ger Tai Minffordd, Rhos Isaf, a bod ceir yn blocio Lôn Ty'n Clwt.

NODER
Ni fydd cyfarfod yn ystod mis Rhagfyr, ond pwysleisiodd y clerc, os bydd problem yn codi, fod rhwydd hynt i'r aelodau gysylltu â hi.